



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

# Nodiadau Canllaw Talu lawndal TB

## Nodiadau Canllaw - Talu Iawndal TB

### Cyflwyniad

Ein nod tymor hir yw cael gwared yn llwyr ar TB gwartheg yng Nghymru. Rydym yn talu iawndal i berchenogion yr anifeiliaid rydym yn eu lladd am fod TB arnyn nhw.

Mae'r trefniadau talu iawndal ar gyfer gwartheg sy'n cael eu difa oherwydd TB wedi'u hamlinellu yng Ngorchymyn Twbercwlosis (Cymru) 2010 (fel y'i diwygiwyd). Mae Gorchymyn Twbercwlosis (Cymru) 2011 (fel y'i diwygiwyd) yn ymwneud â thalu iawndal ar gyfer anifeiliaid heblaw gwartheg. Caiff yr iawndal ei dalu'n llawn fel arfer ond gallai'ch iawndal gael ei leihau os nad ydych wedi cadw at y rheolau yn y Gorchymyn TB, os nad oes gan yr anifail Basbort Gwartheg dilys ar y fferm adeg ei brisio (gwartheg yn unig), neu os cafodd yr anifeiliaid dan sylw eu symud o dan drwydded i ddaliad sydd o dan gyfyngiadau symud.

Mae trwch ffermwyr yn cadw at y rheolau ac yn gweithio gyda ni i ddileu TB. Diben lleihau'r iawndal a delir ar gyfer anifeiliaid sy'n cael eu difa oherwydd TB yw annog ceidwaid anifeiliaid i gadw at yr arferion gorau. Mae perchennog yn cael symud anifeiliaid o dan drwydded i ddaliad sydd â phroblem TB hysbys, ond caiff yr iawndal ei leihau er mwyn sicrhau bod y perchennog yn rhannu'r risg ariannol.

### Y Broses Brisio

---

Os bydd angen difa gwartheg oherwydd TB, bydd yr Asiantaeth Iechyd Anifeiliaid a Phlanhigion (APHA) yn anfon Rhybudd o Fwriad i Ddifa a fydd yn rhestru'r anifeiliaid y bydd angen eu cymryd o'r daliad. Bydd y Rhybudd o Fwriad i Ddifa yn nodi'r dyddiad erbyn pryd y bydd gofyn difa'r gwartheg. Bydd gofyn cymryd yr anifeiliaid o'r daliad yn ddi-oed er mwyn lleihau'r risg iddyn nhw heintio anifeiliaid eraill â TB Gwartheg.

Sylwch, os caiff y gwartheg eu symud o'r daliad ar ôl y dyddiad ar y Rhybudd o Fwriad i Ddifa, gallai'r iawndal gael ei leihau hyd at 75% gan ddibynnu ar faint yr oedi.

Byddwn yn penodi prisiwr i benderfynu beth yw gwerth yr anifail ar y farchnad. Dim ond os oes gwrthdaro buddiant personol neu fusnes y caiff perchennog yr anifail wrthod y penodiad. Bryd hynny, penodir prisiwr trwy benodiad annibynnol.

Er mwyn iddyn nhw allu cael eu prasio, rhaid bod gan y gwartheg y tag clust cywir a phasbort gwartheg dilys ar y fferm. Os nad oes gan yr anifail basbort gwartheg dilys ar y fferm adeg ei brisio neu os oes ganddo Hysbysiad Cofrestru CPP35, yna bernir na fydd gan yr anifail unrhyw werth ar y farchnad a bydd yn rhaid ei ddifa ar y fferm. Mae Gorchymyn Twbercwlosis (Cymru) 2010 (fel y'i diwygiwyd) yn ei gwneud yn ofyn talu iawndal ar gyfer gwartheg sy'n cael eu difa oherwydd TB; felly, o dan yr amgylchiadau hynny, caiff iawndal o £1 yr anifail ei dalu. Yr unig eithriad ir rheol honno yw lloi o dan 37

niwrnod oed neu lai. Mae gan berchenogion gwartheg 27 niwrnod i wneud cais am Basbort Gwartheg a dylid caniatáu 10 niwrnod i gael y pasbort oddi wrth BCMS. Oherwydd hynny, caiff lloi 37 niwrnod oed neu lai eu prisio hyd yn oed os nad oes ganddyn nhw basbort ar y fferm adeg eu prisio. Er y bydd angen lladd anifail mor ifanc â hyn ar y fferm gan na fydd modd ei symud heb basbort, caiff iawndal ei dalu ar sail ei werth ar y farchnad adeg ei brisio.

Mae priswyr yn cael eu penodi trwy broses ddewis sy'n sicrhau bod gan bob prisiwr y profiad angenrheidiol. Bydd y priswyr yn gwybod beth yw gwerth anifeiliaid ar y farchnad a byddant yn defnyddio'r wybodaeth i bennu gwerth yr anifeiliaid sy'n cael eu prisio.

Bydd y prisiwr yn ymweld â'r fferm i brisio'r anifeiliaid ac i wneud y gwaith papur perthnasol. Bydd perchennog yr anifail yn rhoi'r wybodaeth/dystiolaeth sydd ei hangen, er enghraifft, tystysgrifau pedigri, i'r prisiwr gael eu hystyried. Cofiwch, nid yw Tystysgrifau ASR a BSR yn brawf o bedigri.

Dylai perchennog yr anifail neu ei gynrychiolydd wneud yn siŵr fod yr wybodaeth ar waith papur y prisiwr yn gywir. Sicrheir drwy hynny bod yr iawndal yn cael ei dalu i'r busnes/person cywir. Gofalwch fod enw a chyfeiriad y perchennog yn gywir (yn enwedig os yw'n wahanol i gyfeiriad daliad yr anifail).

Unwaith y bydd y broses brisio wedi'i chwblhau, bydd APHA yn prosesu'r gwaith papur ar ran Llywodraeth Cymru i drefnu'r taliad.

### **Symud anifeiliaid i'w lladd**

---

Gofalwch fod gan unrhyw wartheg sy'n cael eu symud o'r daliad i'w lladd dag clust sy'n ateb gofynion Rheoliadau Adnabod Gwartheg (Cymru) 2007 a bod eu pasbort gwartheg yn mynd gyda nhw i'r lladd-dy. Mae'n bwysig bod yr holl wybodaeth ar y pasbort yn gywir.

Ni chaiff anifail nad oes ganddo basbort gwartheg deithio i ladd-dy a rhaid ei ladd ar y fferm.

Rydym yn eich cyngori i archwilio pasbortau'r gwartheg ar eich daliad cyn y prawf TB er mwyn ichi gael amser i ofyn am newid manylion neu i gael pasbortau newydd os oes angen. Rhaid cyflwyno pasbortau cywir yn ystod y sesiwn prisio.

Os ydy anifail yn cael ei gadw o'r gadwyn fwyd am ei fod wedi cael meddyginiaeth, rhowch wybod i APHA pan gysylltir â chi am yr apwyntiad prisio gan na fydd yr anifail yn cael ymuno â'r gadwyn fwyd a bydd angen ei ladd ar y fferm.

Os bernir nad yw anifail yn ffit i deithio, naill ai am fod llai na 27 niwrnod cyn genedigaeth, neu am fod llai na 7 niwrnod ers genedigaethau am ei fod yn gloff neu'n sâl, rhowch wybod i APHA pan gysylltir â chi am yr apwyntiad er mwyn ichi allu trefnu bod yr anifail yn cael ei ladd ar y fferm.

---

Rhaid i'r anifeiliaid gydymffurfio â'r Polisi Da Byw Glân. Rhaid felly eu glanhau at safon dderbyniol cyn mynd â nhw i'w lladd.

## **Oedi cyn symud**

Mae'n bwysig bod yr anifeiliaid sydd angen eu symud o'r fferm yn cael eu cymryd o'r fferm cyn gynted ag y medrir. Byddwn yn lleihau'r iawndal pan na fydd perchennog y fuches wedi cydweithio i anfon yr anifail i'w ladd a'i fod oherwydd hynny: yn cael ei symud fwy na 10 niwrnod gwaith wedi'r dyddiad erbyn pryd y penderfynwyd bod angen lladd yr anifail. Ni chaiff yr iawndal ei leihau os collwyd y targed o 10 niwrnod am resymau y tu hwnt i reolaeth y perchennog.

## **Pryd caiff yr iawndal ei leihau?**

Byddwn yn lleihau'r iawndal pan fyddwn yn fodlon, o bwysu a mesur y sefyllfa, fod y rheolau yn y Gorchymyn TB wedi'u torri. Ceir rhestr o amgylchiadau lle gallech chi gael llai na gwerth yr anifail ar y farchnad o iawndal yn Atodiad A.

Mae hefyd yn drosedd torri'r rheolau a restrir yn y Gorchymyn TB a gallai Safonau Masnach yr Awdurdod Lleol erlyn perchenogion sydd ddim yn cadw at amodau'r Gorchymyn gan ddefnyddio'r amod 'tu hwnt i bob amheuaeth resymol' fel safon i'r dystiolaeth.

## **Anifeiliaid sy'n ymuno â buches o dan gyfyngiadau**

Os oes lle i gredu bod TB ar anifail, mae ei ddaliad yn cael ei roi o dan gyfyngiadau symud. Mae dod â gwartheg iach i ddaliad o dan gyfyngiadau a pheryglu'r anifeiliaid yno yn mynd yn groes i egwyddorion rheoli clefydau heintus. Pan fydd Asesiad Risg gan Filfeddyg yn caniatáu ichi ddod â stoc newydd i'r daliad, ni chewch wneud hynny nes bod eich holl wartheg eraill wedi pasio un neu fwy o'r profion Twbercwlosis swyddogol.

Gall APHA roi trwydded i berchennog i ddod â gwartheg i fuches sydd o dan gyfyngiadau TB. Ond os bydd yn rhaid lladd yr anifeiliaid wedi hynny oherwydd TB cyn bod y fuches yn cael ei chyhoeddi'n fuches heb TB, caiff yr iawndal am yr anifeiliaid hynny ei leihau 50%. Mae hyn yn golygu bod ffermwr yn cael ailstocio ond ei fod yn gorfod wynebu effeithiau rhannu'r risg ariannol o ddod ag anifail iach i fuches y gwyddai fod ganddi broblem TB. Efallai y bydd oedi cyn talu'r iawndal ar gyfer yr anifeiliaid hynny tra bo maint yr iawndal yn cael ei gyfrif.

Cofiwch, os byddwch yn symud gwartheg heb drwydded symud ddilys (i neu o'ch daliad), byddwch wedi torri Gorchymyn Twbercwlosis (Cymru) 2010 (fel y'i diwygiwyd), a gallech gael eich erlyn. Gallai'r iawndal TB ar gyfer anifeiliaid gafodd eu symud heb drwydded gael ei leihau 95%.

## Ad-dalu costau a thaliadau

Mae'r Gorchymyn TB cyfredol yn caniatáu inni adfer ein costau, fel cost offer a/neu staff, os ydym ni wedi gorfod cynnal prawf TB gan nad yw'r ffermwr wedi cynnal y prawf. Byddwn yn gallu adfer ein costau hefyd:

- Os na fydd perchennog wedi gadael inni brisio anifail
- Os na fydd perchennog wedi cymryd anifail o'r fuches

Rydym hefyd yn cael gohirio talu iawndal neu gymryd ad-daliad o daliadau iawndal yn y dyfodol.

## Sut ydym am dalu'r iawndal?

Fel arfer, telir iawndal sy'n seiliedig ar werth yr anifail ar y farchnad ar gyfer anifail sy'n cael ei ladd oherwydd TB. Os ydy'r Gorchymyn TB yn cael ei dorri neu os ydy'r anifail dan sylw wedi cael ei symud o dan drwydded i ddaliad sydd o dan gyfyngiadau symud, caiff yr iawndal ei leihau. Gweler atodiad 1 am ragor o fanylion.

Pwysig:

- Pan dorri amodau'r Gorchymyn TB, gallai gwerth yr anifail gael ei leihau rhwng 5 a 95%.
- Bydd yr iawndal a delir ar gyfer gwartheg sy'n cael eu symud o dan drwydded i ddaliad sydd o dan gyfyngiadau symud yn cael ei leihau 50% os bydd yn rhaid lladd yr anifeiliaid hynny oherwydd TB.
- yr iawndal lleiaf a delir fydd gwerth yr anifail marw ar gyfer ei drin
- telir gwerth yr anifail ar y farchnad (neu'r gwerth hwnnw wedi'i leihau) pan fydd hwn yn fwy na'i werth yn farw
- Os nad oes pasbort gwartheg dilys ar y fferm adeg prisio'r gwartheg, dim ond £1 o iawndal a delir ar gyfer yr anifeiliaid hynny.

Dangosir enghreifftiau o'r iawndal a delir gan ddefnyddio lluosyddion gwahanol yn y tabl isod:

Gwerth y farchnad	Ei werth ar gyfer ei drin	Lluosydd	Iawndal
£1,500	£500	1	£1,500
£1,500	£500	0.75	£1,125
£1,500	£500	0.5	£750
£1,500	£500	0.25	£500
£1,500	£500	0.05	£500
£0	£0	1	£1

Hefyd, yr iawndal mwyaf a dalwn am anifail yw £5,000 a £1 yw'r iawndal lleiaf.

Byddwn yn talu'r iawndal TB i CRN (Cyfeirnod Cwsmer) perchennog yr anifeiliaid dan sylw. Mae'n bwysig felly bod gennych CRN a'ch bod wedi

diweddarau'ch manylion, gan gynnwys manylion eich cyfrif banc. Os oes angen ichi ofyn am CRN neu newid manylion eich banc neu'ch busnes, cysylltwch â:  
Canolfan Gyswilt i Gwsmeriaid Taliadau Gwledig Cymru

0300 0625004

E-bost: [rpwonline@cymru.gsi.gov.uk](mailto:rpwonline@cymru.gsi.gov.uk)

## **A ga i apelio?**

Byddwch yn gallu apelio yn erbyn penderfyniad i leihau'r iawndal o dan ein Proses Apelio Annibynnol. Cliciwch ar y ddolen isod i fynd i dudalen apelio'r Llywodraeth:

<http://gov.wales/topics/environmentcountryside/farmingandcountryside/farming/rpwappeals/?lang=cy>

Cofiwch, ni chewch apelio yn erbyn y gwerth a bennwyd yn y broses brisio.

Rhaid i geisiadau i apelio ein cyrraedd ddim mwy na 60 niwrnod ar ôl dyddiad y llythyr sy'n rhoi gwybod ichi am y penderfyniad rydych am apelio yn ei erbyn. Byddwn yn gwrthod apeliadau sy'n cyrraedd ar ôl y dyddiad hwn.

**Atodiad A - Lluosyddion gwerthoedd y farchnad pan gaiff Gorchymyn Twbercwlosis (Cymru) 2010 (fel y'i diwygiwyd) ei dorri.**

<b>Amgylchiadau pan fydd y lluosydd yn werth llai na 1</b>	<b>Y Lluosydd</b>
Heb ufuddhau i hysbysiad ynysu neu hysbysiad arall o dan Erthygl 10(3)	0.5
torri neu anufuddhau eto mwy nag 1 gofyniad.	0.05
Llaeth heb ei basteureiddio o fuwch dan amheueith yn cael ei fwydo i lo neu famal arall.	0.05
Anifail o dan gyfyngiadau yn cael ei symud heb drwydded	0.05
Hysbysiad Gofynion Milfeddygol:	
tramgwydd cyntaf	0.5
tramgwydd wedi hynny	0.05
Hysbysiad Gwella Boddlogelwch:	
tramgwydd cyntaf	0.5
tramgwydd wedi hynny	0.05
Heb ufuddhau i hysbysiad cyfyngiadau ar storio, gwasgaru neu symud tail neu slyri.	0.75
Heb ufuddhau i hysbysiad arall o dan Erthygl 18(1) h.y: hysbysiad ynysu neu hysbysiad glanhau a diheintio:	
tramgwydd cyntaf	0.5
tramgwydd wedi hynny	0.05
Heb gynnal prawf ar anifail (y bwllch rhwng y dyddiad a roddwyd ar gyfer y prawf a'r prawf ei hun yw):	
Mwy na 60 niwrnod ond ddim mwy na 90 diwrnod	0.5

Mwy na 90 diwrnod	0.05
Heb gadw at amodau AFU neu EFU	0.05
Anifail yn cael ei ladd oherwydd TB ar ôl iddo ddod, o dan drwydded, i safle sydd o dan gyfyngiadau symud, a chyn i'r fuches adennill ei statws heb TB swyddogol.	0.5
Yn araf yn mynd ag anifail i gael ei ladd. Y bwloch rhwng diwrnod penodedig y prawf a'r symud yw:	
Mwy na 0 niwrnod gwaith ond ddim mwy na 10 diwrnod gwaith.	0.75
Mwy na 10 niwrnod gwaith ond ddim mwy na 20 diwrnod gwaith.	0.5
Mwy nag 20 diwrnod gwaith	0.25
Prawf TB gorfodol h.y. pan gynhelir y prawf o dan Erthygl 12(5) y Gorchymyn	0.05
Lladd yr anifail am nad yw wedi cael prawf h.y. am ei fod yn wyllt neu'n anodd ei reoli	0.05
Heb gadw at ofynion Erthygl 12(2) h.y cuddio'r anifail sydd wedi adweithio neu beidio â dangos yr anifail sydd wedi adweithio.	0.05
Torri gwaharddiad h.y. defnyddio brechlyn TB, trin TB anifail, cynnal prawf heb ganiatâd, amharu ar brawf	0.05



## Atodiad B

# Cymorth Gwladol

Mae'r cynllun ar agor i fentrau bach a chanolig.

Mae cymorth i'w gael drwy gydymffurfio â chyfres o amodau ym Mhennod 1 (darpariaethau Cyffredin) ac Erthygl 26 (darpariaethau penodol) Rheoliad (UE) 702/2014. Mae'r mesurau wedi eu hanelu at roi iawndal i berchnogion am golledion sy'n cael eu hachosi gan glefydau anifeiliaid. Yn unol ag Erthygl 26.1 o Reoliad (UE) Rhif 702/2014, bydd yn cydweddu â'r farchnad fewnol o fewn ystyr Erthygl 107(3) (c) o'r Cytuniad a bydd wedi ei eithrio o'r gofyniad i hysbysu yn Erthygl 108(3) pan fo yn cyflawni'r amodau sydd wedi eu gosod ym mharagraffau 2 i 13 o'r Erthygl hon ac ym Mhennod 1. Bydd y cynllun yn dilyn Erthygl 26(5) o ran taliadau uniongyrchol.

Ni fydd y cymorth fesul eitem yn fwy na 100%. Bydd y cymorth yn cael ei gyfyngu i golledion sydd wedi'u hachosi gan TB, sy'n endemig yng Nghymru ar hyn o bryd. Mae'r cynlluniau rheoli gwartheg a chefnogi ffermwyr yn benodol i TB fel a grybwyllwyd yn y rhestr o glefydau anifeiliaid a benwyd gan Sefydliad Iechyd Anifeiliaid y Byd ac/neu yn Atodiad 1 i Reoliad (UE) Rhif 652/2014.

Nid yw'r cymorth yn berthnasol i fesurau o ran pa ddeddfwriaeth gan yr Undeb Ewropeaidd sy'n darparu bod costau mesurau o'r fath yn cael eu talu gan y fferm. Bydd y cynllun yn cydymffurfio ag Erthygl 26.7 i Erthygl 26.9 o Reoliad yr (UE) Rhif 702/2014.